Gwneud cais am help ychwanegol gyda chostau tai

- I wneud cais am Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor, bydd angen i chi hysbysu eich Cyngor a'ch Canolfan Byd Gwaith leol eich bod wedi dechrau gwaith neu'n gweithio mwy o oriau.
- I wneud cais am Ddilyniant o Log Morgais, rhowch wybod i'ch Canolfan Byd Gwaith eich bod yn dechrau gwaith neu'n gweithio mwy o oriau.

Cymorth Ariannol Arall

Grant Swyddi

Os ydych wedi bod yn hawlio Budd-dal Analluogrwydd, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Anabledd Difrifol yn barhaus am fwy na 6 mis ac yn dechrau gwaith am fwy na 16 awr yr wythnos, gallech gael Grant Swyddi.

Mae Grant Swyddi yn gyfandaliad di-dreth o

- £100 os ydych yn berson sengl neu'n rhan o gwpl di-blant
- £250 os ydych yn rhiant unigol neu'n rhan o gwpl sydd â phlant

Telir Grant Swyddi i chi yn awtomatig pan fyddwch yn dechrau eich swydd newydd pan fyddwch yn dweud wrth eich Canolfan Gwaith leol eich bod yn dechrau gwaith.

Credydau Treth

Mae credydau treth yn daliadau a wneir gan Cyllid a Thollau EM. Mae dau fath gwahanol o gredyd treth y gallech eu cael unwaith y byddwch yn dechrau gwaith:

- **Credyd Treth Plant** – Credyd unigol yw hwn ar gyfer teuluoedd sydd â phlant. Mae'n lwfans ar sail prawf modd ar gyfer rhieni, prif warchodwyr neu ofalwyr plant neu bobl ifanc. Mae naw allan o ddeg o deuluoedd sydd â phlant yn gymwys i gael Credyd Treth Plant.
- **Credyd Treth Gwaith** – Credyd targed yw hwn i bobl sy'n gweithio ar incwm isel. Ei nod yw rhoi hwb i gymhelliannau gwaith drwy ychwanegu at gyflogau'r rhai sydd ar incwm isel yn ôl amgylchiadau eu teulu. Mae hyn yn cynnwys cynnig help uniongyrchol gyda chost gofal plant ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio, drwy elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith. Os ydych yn gweithio mwy na 16 awr yr wythnos ac yn ennill incwm isel , gallech gael Credyd Treth Gwaith.

Mae gan wefan Directgov (www.directgov.gov.uk) holiadur ar-lein y gallwch ei ddefnyddio i weld os ydych yn gymwys i gael Credydau treth.

Adran 7:

Help ariannol ar gyfer dychwelyd i'r gwaith

Gall y syniad o ddychwelyd i'r gwaith a'ch budd-daliadau yn dod i ben fod yn frawychus, yn enwedig os yw eich swydd newydd yn talu bob mis. Os ydych wedi bod yn ddi-waith am dros 6 mis a'ch bod yn disgwyl i'ch swydd bara am fwy na 5 wythnos, gallwch gael cymorth a gynlluniwyd i'ch helpu.

Cyfrifiadau Gwell eich Byd mewn Gwaith

Sut wyddoch chi y byddwch yn well eich byd mewn gwaith? Gall eich ymgynghorydd Canolfan Byd Gwaith wneud cyfrifiad i chi. Byddant yn dechrau drwy gadarnhau pa fudd-daliadau rydych yn eu cael ar hyn o bryd a chyfrifo eich incwm wythnosol. Yna byddant yn edrych ar y swm y gallech ei ennill mewn swydd y mae gennych ddiddordeb ynddi.

Bydd eich ymgynghorydd hefyd yn ychwanegu unrhyw gredydau treth a chymorth arall y gallech eu cael – fel Budd-dal Tai – i ddangos i chi y gwahaniaeth rhwng cael budd-daliadau a bod mewn gwaith. I sicrhau na fyddwch yn colli'r cyfle, trefnwch apwyntiad gydag ymgynghorydd yn eich Canolfan Gwaith leol i weld y gwahaniaeth y gallai bod mewn gwaith ei wneud.

Budd-daliadau a delir pan fyddwch yn dechrau gwaith

Help gyda Chostau Tai

Os oeddech yn cael help gyda chostau tai oherwydd eich bod yn cael Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Anabledd Difrifol tra'r oeddech yn ddi-waith, yna gallech barhau i gael help am hyd at 4 wythnos ar ôl i chi ddechrau eich swydd newydd.
Gallai hyn gynnwys:

- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth Cyngor
- Dilyniant o Log Morgais

Budd-dal Tai – Gallech gael Budd-dal Tai am hyd at 4 wythnos ar ôl i chi ddechrau gwaith, neu os ydych eisoes yn gweithio, eich bod yn gweithio mwy o oriau nag o'r blaen neu ennill mwy o arian nag o'r blaen. Fel arfer, byddwch yn cael yr un fath o gymorth yn ystod yr amser hwn â gawsoch pan oeddech yn hawlio budd-dal.

Budd-dal Treth Cyngor – Gallech gael Budd-dal Treth Cyngor am hyd at 4 wythnos ar ôl i chi ddechrau gwaith, gweithio mwy o oriau a hefyd ennill mwy o arian. Unwaith eto, byddwch yn cael yr un help â gawsoch pan oeddech yn hawlio budd-dal.

Dilyniant o Log Morgais – Os oeddech yn gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith neu Gymhorthdal Incwm ac oeddech yn cael help i dalu morgais neu fenthyciad ar eich cartref, gall hyn bara am hyd at 4 wythnos ar ôl i chi ddechrau gwaith neu gweithio mwy o oriau hefyd. Bydd y swm a gewch yr un peth â'r swm a gawsoch pan oeddech yn hawlio budd-dal ond bydd taliadau yn cael eu gwneud i **chi**, nid benthyciwr eich morgais.